

Croeso i Gwrs y Beibl

Bydd Cwrs y Beibl yn dy helpu i ddeall y Beibl drosot dy hun. Drwy'r wyth sesiwn byddi'n dod i weld y darlun mawr – stori'r Beibl o Genesis i'r Datguddiad. Ar y daith byddi'n derbyn offer a sgiliau i dy helpu i'w ddarllen drosot dy hun. Mae pob sesiwn yn rhyngweithiol gyda chyfnodau o ddysgeidiaeth, trafodaeth a myfyrdod personol. Rhwng y sesiynau mae yna ddarlleniadau dyddiol i baratoi ar gyfer yr wythnos ganlynol. Erbyn diwedd y cwrs byddi'n ddigon hyderus i afael yn y Beibl, ei ddarllen drosot dy hun a'i gymhwyso i dy fywyd.



Mwynha'r cwrs,
Dr Andrew Ollerton



*Rho bysgodyn i ddyn, a byddi'n ei fwydo am
ddiwrnod. Dysga ddyn i bysgota, a byddi'n ei
fwydo am weddill ei fywyd.*

Cynnwys

Dechrau arni	6
1 Cyflwyno'r Beibl	9
2 Y Creu a'r Cyfamod	25
3 Yr Exodus a Gwlad yr Addewid	43
4 Barnwyr a Brenhinoedd	61
5 Y Gaethglud a'r Proffwydi	81
6 Iesu a'r Efengylau	101
7 Yr Actau a'r Eglwys	117
8 Datguddiad ac Adolygu	135
Llyfrau i'w darllen	150
Geirfa	152

Dechrau arni

Gall ffeindio dy ffordd o gwmpas y Beibl deimlo'n gymhleth ar y dechrau. Defnyddia'r dudalen 'Cynnwys' tua dechrau'r Beibl i ddarganfod teitl y llyfr rwyf yn chwilio amdano, a rhif y dudalen.

Pan fyddi wedi dod o hyd i'r llyfr, bydd angen edrych am rif y bennod a'r adnod. Edrych ar yr enghraifft isod i weld sut mae hyn yn gweithio. Dyma Genesis (pennod) 1. (adnod) 3 – fel arfer yn cael ei ysgrifennu fel Genesis 1.3.

The diagram illustrates the navigation process in a Bible application. It starts with a search for 'Yr Hen Exodus...', which leads to the 'Cynnwys' (Contents) page. From there, it navigates to '1 Ar gywneb' (Chapter 1), and finally to the specific verse 'Genesis 1.3'.

Yr Hen Exodus...

Cynnwys

1 Ar gywneb

Genesis

Hanes Creu y Byd

Ar y dechrau cymtal, dyma Duw yn creu y bydysawd a'r ddolau: "Roedd y diwrnod, ac roedd hi'n hollol dywyll dros y ddiwrnod. Ond medd Ysbyrd Duw wneby y diwrnod. "A dweudodd Duw, "Dw i creu golau!" a daeth golau i fod. "Roedd bod hyn yn dda, a dyma Duw yn gwahanu'r golau oddi wrth y twyllwch. "Rhodi dydd" i'r golau a'i enw 'nes' i'r twyllwch, ac roedd nes a dydd ar y diwrnod cymtal.

"Wedyn dweudodd Duw, "Dw i creu cromen o aer rhwng y dyfroedd, i wahanu'r awyr a'r dda. "A dyma ddiwrnododd. Gwnaeth Duw gromen o aer, ac roedd yn gwahanu'r awyr oddi wrth y dda uwch ei phen. "Rhododd Duw yr enw 'zwy' i'ddi, ac i'r

6 Wed ydau"

Yr Hen Exodws			
Creu	1	Sefyllau	1129
Exodus	95	Hogon	1125
Llyfr	100	Serchys	1120
Nofod	139	Neuach	1181
Deudws	174		
Isod	215		

Gwneud y gorau o'r darlleniadau dyddiol o'r Beibl

- Dos i le tawel a chyfforddus sy'n ffitio dy drefn ddyddiol
- Dweud gweddi fer fel: 'O Dduw, helpa fi heddiw i ddeall y darn yma, a siarad â mi drwyddo'
- Darllen y darn gwpl o weithiau mewn cyfieithiad modern
- Meddylia am y ddau gwestiwn yma:

BETH? Beth oedd y darn yma yn ei olygu yn ei gyd-destun gwreiddiol?

BETH NAWR? Beth mae'r darn yma yn ei olygu i mywyd i heddiw?

- Ysgrifenna dy atebion i helpu i brosesu dy feddwl
- Edrych am adnod neu ryw ymadrodd sy'n sefyll allan i ti. Ysgrifenna hi i lawr a meddwl am ei harwyddocâd i dy fywyd
- Gweddia, a gofyn i Dduw dy helpu i fyw'r gwirioneddau yma
- Os oes rhywbeth wyt ti ddim yn ei ddeall, paid gadael i hynny dy ddal yn ôl. Bwrw ymlaen drwy'r darlleniad a defnyddio'r Beibl Canllaw neu Feibl Astudio (Saesneg) i gael help

Cyflwyno'r Beibl

Llyfrgell o lyfrau ydy'r
Beibl, wedi eu rhannu
yn ddau Destament
– yr Hen a'r Newydd.
Gyda'i gilydd maen
nhw'n adrodd un
stori sy'n canolbwyntio
ar Iesu Grist.



Sesiwn 1

Dylanwad y Beibl

FY NODIADAU 

Cerddoriaeth a
ffilmiau

Chwaraeon

Llenyddiaeth

laith

Ysgolion a
cholegau

Gwleidyddiaeth
a diwygio
cymdeithasol



Poblogrwydd y Beibl

Y Beibl ydy'r llyfr sy'n gwerthu orau flwyddyn ar ôl blwyddyn

- Dros 400 miliwn o gopiau yn cael eu gwerthu neu eu dosbarthu yn flynyddol
- Heb sôn am gael ei lawrlwytho ar gyfrifiaduron a ffonau
- Wedi ei gyfieithu i dros 2,500 o ieithoedd

FY NODIADAU 



Beibl

*o'r gair Groeg
biblia, sy'n
golygu 'llyfrau'*

Sanctaidd

*sy'n golygu
'cysegredig' neu
'arall'*

Mae'r Beibl wedi ei ysbrydoli

Cafodd ei ysgrifennu gan dros 40 o awduron dros gyfnod o 1,500 o flynyddoedd. Ond Duw oedd y pensaer. Duw wnaeth ei ysbrydoli.

'Duw sydd wedi ysbrydoli'r ysgrifau sanctaidd hynny i gyd, ac maen nhw'n dysgu beth sy'n wir i ni, yn cywiro syniadau anghywir, yn dangos beth dyn ni'n ei wneud o'i le, a'n dysgu ni i fyw yn iawn. Felly mae gan bobl Dduw bopeth sydd ei angen iddyn nhw wneud pob math o bethau da.'

2 Timotheus 3.16-17

FY NODIADAU



Cadeirlan St Paul
yn Llundain

Llyfrau'r Beibl

Hanes (Coch)

Doethineb (Glas)

GENESIS

EXODUS

LEFITICUS

NUMERI

DEUTERONOMIUM

JOSUA

BARNWYR

RUTH

1 & 2 SAMUEL

1 & 2 BRENNINOEDD

1 & 2 CRONICL

ESRA

NEHEMIA

ESTHER

JOB

SALMAU

DIARHEBION

PREGETHWR

CANIAID
SOLOMON

Proffwydoliaeth (Gwyrdd)

ESEIA

JEREMIA

GALARAD

ESECIEL

DANIEL

HOSEA

JOEL

AMOS

OBADIA

JONA

MICHA

NAHUM

HABACUC

SEFFANIA

HAGGAI

SECHAREIA

MALACHI

Efengylau (Porffor) Llythyrau (Melyn)

MATHEW

MARC

LUC

IOAN

ACTAU

RHUFENIAID

1 & 2 CORINTHIAID

GALATIAD

EFFESIAD

PHILIPIAID

COLOSIAD

THESSALONIAID

1 & 2

1 & 2 TIMOTHEUS

TITUS

PHILEMON

HEBREAI

IAGO

1 & 2 PEDR

1 & 2 & 3 IOAN


JWIDAS

DATGUDDIAD

Mae'r llyfrau wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl arddull neu *genre* ysgrifennu. Yn y fideos, mae'r lliw ar feingefn pob llyfr yn dynodi'r *genre*.

Mae'r Beibl yn stori

Mae'r Beibl yn FAWR – felly mae angen i ni weld y darlun mawr.



- Mae'r Beibl yn gasgliad unigryw o lyfrau sydd wedi eu hysgrifennu dros gyfnod o 1500 o flynyddoedd gan amrywiaeth o awduron, gan gynnwys brenhinoedd, gwerinwyr, athronwyr, pysgotwyr, beirdd, arweinwyr gwleidyddol ac ysgolheigion
- Mae'n cynnwys tair iaith (Hebraeg, Aramaeg a Groeg) ac mae'n sôn am gannoedd o bynciau dadleuol. Ac eto, mae iddo harmoni a dilyniant o Genesis i'r Datguddiad
- Nid rhyw rym dwyfol pell na ellir ei nabod ydy Duw y Beibl, ond Duw cariad y gall pobl gyffredin feithrin perthynas bersonol gydag ef


Mae angen dehongli'r Beibl

Mae'r Beibl yn HEN – felly rydyn ni angen ein hyfforddi i'w gymhwyso. Mae'r cyd-destun yn bwysig.

'Os cymerwch destun allan o'i gyd-destun, cewch eich camarwain.'

Rhaid gofyn dau gwestiwn:

- **BETH?** Beth oedd y darn yma yn ei olygu yn ei gyd-destun?
- **BETH NAWR?** Beth mae'r darn yma yn ei olygu i mywyd i heddiw?





Amser Trafod

Stopio'r fideo am 25 munud

- Oedd rhywbeth yn eich synnu neu wedi'ch taro wrth feddwl am ddylanwad y Beibl ar ein byd?
- Ydych chi wedi ceisio darllen y Beibl erioed? Sut oeddech chi'n dod ymlaen?
- Beth ydych chi'n gobeithio ei gael o ddilyn Cwrs y Beibl?
- Beth ydych chi'n ei feddwl o'r honiad fod y Beibl 'wedi ei ysbyrdoli gan Dduw'?



Ailddechrau'r fideo a symud ymlaen i'r AIL RAN.